## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 22 Hydref 2003

## Cynnig a gyflwynwyd ar 15 Hydref 2003

**Dadl Fer**

**NDM1668 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Prifysgol Awyr Agored

**NDM1669 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2004-2005, 2005-2006 a 2006-07, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 14 Hydref 2003 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 16 Hydref 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1669**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn condemnio methiant y Llywodraeth i ddarparu digon o arian er mwyn sicrhau bod adfywio Cymru wledig yn cael blaenoriaeth, ac yn tynnu sylw arbennig at y lleihad a welwyd yn yr arian a roddir i’r Cynllun Tir Gofal.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn condemnio’r lleihad yn yr arian a roddir i’r Gronfa Mynediad i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys Grant Dysgu'r Cynulliad, a fydd yn atal hyd yn oed mwy o fyfyrwyr rhag dilyn cyrsiau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn condemnio methiant y Llywodraeth i ddyrannu digon o arian i faes addysg ac o ganlyniad bydd mwy o bwysau ar gyllidebau ysgolion ac ni fydd yr Awdurdodau Addysg Lleol yn medru bodloni gofynion y cyfrifoldebau newydd megis y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon a Thâl sy'n Seiliedig ar Berfformiad

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal Adolygiad o'r Fformiwla Barnett ar frys er mwyn sicrhau bod y swm sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer Bloc Cymru yn seiliedig ar angen.*

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn beirniadu Trysorlys y DU am wrthod dro ar ôl tro i ddyrannu arian cyfatebol ar gyfer arian Ewropeaidd yng Nghymru ac yn nodi, yn anffodus, bod yn rhaid dod o hyd i'r holl arian cyfatebol o gyllidebau presennol y Cynulliad Cenedlaethol megis y gyllideb addysg.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 17 Hydref 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1669**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y gyllideb ddrafft yn golygu y bydd codiadau mawr yn y dreth gyngor ledled Cymru yn anorfod.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu'n fawr at y bwriad i gwtogi ar y cynlluniau gwreiddiol i fuddsoddi mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar y llywodraeth i gynnwys cyllid er mwyn caniatáu i gyflogau Addysg Bellach gael eu codi i gyfateb i gyflogau athrawon ysgol.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r gyllideb ddrafft yn llwyddo i fynd i'r afael â'r argyfwng o ran Tai Fforddiadwy yng Nghymru sydd ar gael i'w prynu a'u rhentu.

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw lefelau gwario dangosol ar gronfeydd Mynediad i Fyfyrwyr wedi'u cynnal.

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y diffyg blaenoriaeth a roddir i addysg yn golygu nad yw problemau cyllido Colegau Addysg Bellach yng Nghymru yn cael eu datrys.

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod hepgor y ffigurau ar gyfer 2003/04 o'r cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft wedi llesteirio'r gwaith o wneud dadansoddiad cymharol.

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na fydd y ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb heb unrhyw newidiadau gwirioneddol yn gwneud llawer i ddatrys yr argyfwng y mae GIG Cymru yn ei wynebu o ran y rhestrau a'r amserau aros.

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio Llywodraeth Cynulliad Cymru am ailgyfeirio adnoddau o'r gyllideb addysg, ac

yn benodol o'r cyllid ar gyfer adeiladau ysgolion a chymorth i fyfyrwyr; ac yn condemnio ymhellach y methiant i sicrhau bod digon o arian ar gael i gynnal ysgolion yng nghefn gwlad Cymru.

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio Llywodraeth Lafur y Cynulliad am gwtogi ar yr arian ar gyfer cefn gwlad yn y gyllideb ddrafft; yn benodol, y lleihad yn yr arian sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Tir Gofal, iawndal ar gyfer TB mewn gwartheg a chymorth i siopau gwledig.

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi na fydd y gyllideb Ddiwylliant yn ddigon i wrthbwyso'r lleihad yn arian y loteri ac y bydd hyn yn cael effaith andwyol, yn benodol ar yr arian ar gyfer y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd.

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad yn cydnabod y bydd y setliad annigonol ar gyfer yr awdurdodau lleol yn arwain at godi'r dreth gyngor. Gan nad yw’r dreth gyngor yn gysylltiedig â'r gallu i dalu, bydd yn effeithio fwyaf ar y rheini sydd ar incwm isel, a phensiynwyr yn benodol, gan gryfhau'r ddadl dros ddisodli'r dreth gyngor â threth incwm leol.